**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus LGPS 01-03(min)**

**Cofnodion**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 18 Mehefin 2003
**Amser:** 9.30am tan 11.50pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Tamsin Dunwoody-Kneafsey | Preseli Sir Benfro |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Sue Essex, *Gweinidog* | Gogledd Caerdydd |
| Ann Jones, *Cadeirydd* | Dyffryn Clwyd |
| Laura Ann Jones | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

*Yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr yr Adran Llywodraeth Leol a Diwylliant |
| Kate Cassidy | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| Frank Cuthbert | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| Howard James | Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol |

*Yr Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |
| Dai James | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

**Sylwadau cyflwyniadol**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau newydd a dywedodd fod portffolio'r Pwyllgor yn cynnwys materion strategol sy'n ymwneud â llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus. Gobeithiai y byddai'n canolbwyntio ar y materion hyn yn hytrach na materion sy'n ymwneud ag etholaeth neu awdurdod lleol penodol. O ystyried y cylch cyfarfodydd tair-wythnosol a fabwysiadwyd yn y cyfarfod llawn, roedd yn gobeithiai y byddai'r rhan fwyaf o'r papurau pwyllgor yn cael eu dosbarthu tua 10 niwrnod cyn pob cyfarfod.

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

2.1 Dywedodd y Gweinidog ei bod yn fwriad ganddi hithau hefyd ganolbwyntio ar elfen strategol ei phortffolio er mwyn cydlynu gwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus. Yna bu'r Aelodau yn holi'r Gweinidog ar gynnwys ei hadroddiad.

***Ailbrisio ac Ailfandio'r Dreth Gyngor 2005***

2.2 Cyflwynodd y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

– roedd yr ailfandio'n angenrheidiol oherwydd graddfa'r cynnydd diweddar ym mhrisiau tai ledled Cymru. Ar yr amod bod polisi macro-economaidd y DU yn arwain at sefydlogrwydd yn y farchnad dai, yna dylai'r canlyniadau fod yn ddilys am beth amser. Er gwaethaf yr angen i ymgynghori ymhellach ar fandiau'r dreth gyngor, roedd y bwriad i roi'r gwerthusiadau a bandiau newydd ar waith ym mis Ebrill 2005 yn parhau;
– er mai effaith niwtral fyddai gan yr ymarfer hwn ar y dreth gyngor ledled Cymru, byddai newidiadau yn yr arian a geir yn ardaloedd yr awdurdodau lleol unigol. Ni fyddai'n bosibl asesu maint y newidiadau hyn hyd nes y byddai'r data gwerthuso wedi'i gasglu;
– er ei bod yn gwerthfawrogi'r dadleuon ynghylch systemau gwahanol o drethiant lleol, nid oedd y Gweinidog yn credu y byddem, yn y dyfodol rhagweladwy, yn debygol o symud i ffwrdd o'r system bresennol sy'n seiliedig ar eiddo. Felly roedd hi'n bwriadu canolbwyntio ar sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu cyn deced â phosibl yng Nghymru.

2.3 Cytunodd yr Aelodau y dylai Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ddarparu papur cefndir ar newidiadau mawr yn system gyllid llywodraeth leol a baich trethiant lleol ers sefydlu'r Cynulliad.

***Cydbwysedd Cyllid Refeniw***

2.4 Dywedodd y Gweinidog y byddai'r adolygiad gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) yn archwilio'r angen am newid y modd y mae system cyllid llywodraeth leol Lloegr yn gweithio. Ni fyddai'n argymell newidiadau heb ymgynghori'n gyntaf ac felly, er nad oedd cynrychiolydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar grwp llywio'r adolygiad, byddai cyfle i roi sylwadau ar unrhyw newidiadau arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru. Dywedwyd wrth swyddogion nad oedd disgwyl cael deddfwriaeth sylfaenol ar y mater yn y Senedd bresennol. Cytunodd y Gweinidog i roi'r diweddaraf ynghylch hynt yr adolygiad i'r Pwyllgor yn gyson.

***Perfformiad Llywodraeth Leol***

2.5 Rhoddodd y Gweinidog sicrhad y byddai'r gyfres nesaf o gytundebau polisi llywodraeth leol ar gael yn gyhoeddus. Croesawodd y Pwyllgor hyn, a'r cyfle i graffu a ddeuai yn ei sgil.

***System Fenthyca Ddarbodus***
2.6 Nododd y Pwyllgor y byddai cyflwyno system ddarbodus yn golygu y byddai newid sylweddol i'r system cyllid cyfalaf llywodraeth leol a byddai gofyn hefyd newid dull Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddarparu cymorth refeniw ar gyfer benthyca. Dywedodd y Gweinidog mai'r awdurdodau lleol fyddai'n gyfrifol am reoli eu benthyca a sicrhaodd y Pwyllgor y byddai'n ystyried defnyddio ei phwerau rheoli wrth gefn mewn amgylchiadau eithafol yn unig.

***Democratiaeth leol***
2.7 Anogwyd y Gweinidog i gyhoeddi manylion y cynllun diswyddo ar gyfer cynghorwyr lleol a dyddiad etholiadau llywodraeth leol cyn gynted â phosibl.

**Gweithredu:**
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i ddarparu papur cefndir ar newidiadau sylweddol i'r system cyllid llywodraeth leol a baich trethiant lleol ers sefydlu'r Cynulliad - **Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**
Y Gweinidog i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor yn gyson ar hynt adolygiad ODPM o gyllid llywodraeth leol yn Lloegr - **Gweinidog, Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol**

**Eitem 3: Mesur Llywodraeth Leol**
3.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried hynt a chynnwys y Mesur Llywodraeth Leol a'i rôl o ran craffu ar yr is-ddeddfwriaeth a fyddai'n deillio ohono. Cytunodd y Pwyllgor y dylai:
- ganolbwyntio ar faterion lle y byddai'r Cynulliad fwyaf tebygol o allu datblygu polisïau nodweddiadol;
- gweld offerynnau drafft mewn da bryd;
- derbyn manylion ynghylch effaith y ddeddfwriaeth newydd.

3.2 Sicrhawyd y Pwyllgor gan y Gweinidog y byddai cyfnod craffu yn cael ei gynnwys yn yr amserlen ar gyfer pob darn o is-ddeddfwriaeth ac y byddai papurau'n cael eu paratoi ar effaith y ddeddfwriaeth. Nododd yr Aelodau fod yr ansicrwydd ynghylch dyddiad y Cydsyniad Brenhinol ar gyfer y Mesur yn golygu efallai mai drafftiau cynnar y ddeddfwriaeth fyddai'n cael eu hystyried ar ddechrau tymor yr hydref.

**Gweithredu**
Papur yn dangos y meysydd hynny lle y ceir y sgôp mwyaf i'r Cynulliad greu polisi nodweddiadol, a dosbarthu amserlen ddangosol i'w hystyried gan y Pwyllgor i'r Aelodau – **Yr Ysgrifenyddiaeth**
Cynnwys cyfnod ystyried y Pwyllgor yn yr amserlen ar gyfer OS sy'n deillio o'r Mesur - **Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.**
Darparu papurau yn hysbysu'r Pwyllgor am effaith deddfwriaeth - **Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol,**

**Eitem 4: Is-ddeddfwriaeth**

4.1 Nododd y Pwyllgor yr offerynnau statudol (OSau) canlynol i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf:
*- The Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils) (Past Service Awards) (Wales) Regulations 2003;*
*- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Pensiynau) (Cymru) 2003*

4.2 Yn ychwanegol at y rhain a'r OSau sy'n deillio o'r Mesur Llywodraeth Leol, gofynnodd y Pwyllgor am gael amserlen ar gyfer craffu ar y canlynol:

- *Gorchymyn y Dreth Gyngor (Bandiau Prisio a Rhestrau) (Cymru) 2003;*
- *The Fire Authorities Allowances (Wales) Regulations 2003;*
- *The Valuation Tribunals (Amendment) (Wales) Regulations 2004.*

4.3 Cytunodd yr Aelodau i fabwysiadu protocol addas ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth yn y Pwyllgor. Dylai hyn adael digon o amser i'r Aelodau ystyried yr OSau drafft yn fanwl ac argymell newidiadau cyn pob cyfarfod. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu protocol awgrymedig ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth yn y Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf.

4.4 Gofynnodd yr Aelodau am i'r papurau ar is-ddeddfwriaeth gynnwys rhifau tudalennau ac OS yn y dyfodol er mwyn ei gwneud hi'n haws cyfeirio atynt, ac er mwyn cael amserlenni manylach ar eu cyfer.

**Gweithredu**
Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu protocol awgrymedig ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth yn y Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf - **Yr Ysgrifenyddiaeth**
Rhifo tudalennau'r papurau Pwyllgor ar ddeddfwriaeth sydd ar y gweill er mwyn ei gwneud hi'n haws cyfeirio atynt, ac er mwyn cael amserlenni manylach ar eu cyfer - **Y Gweinidog, Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol**

**Eitem 5: Blaenraglen waith**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a nododd pa mor bwysig oedd canolbwyntio ar feysydd lle y gall ei waith ychwanegu gwerth. Tynnodd yr Aelodau sylw at y blaenoriaethau canlynol:

- Setliad Refeniw Llywodraeth Leol 2004-05;
- Monitro llwyddiant cytundebau polisi;
- Rôl cynghorau tref a chymuned;
- Trefniadau etholiadol Llywodraeth Leol;
- Patrymau gwario a darparu gwasanaeth llywodraeth leol.

5.2 Awgrymwyd y gellid clywed cyflwyniadau gan *Un Llais*, Comisiwn Ffiniau'r Senedd (Parliamentary Boundary Commission) ac Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu.

5.4 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n canolbwyntio ar weithredu'r strwythurau rheoli gwleidyddol newydd mewn llywodraeth leol fel testun ei brif adolygiad polisi cyntaf. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu cylch gorchwyl drafft cyn y cyfarfod nesaf, a rhaglen waith fanylach i'r Aelodau eu hystyried.

**Gweithredu**
Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu cylch gorchwyl drafft cyn y cyfarfod nesaf a rhaglen waith fanylach i'r Aelodau eu hystyried - **Yr Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 6: Enwebu Aelodau i ystyried penodiadau cyhoeddus**
6.1 Enwebwyd Ann Jones a Glyn Davies i ystyried penodiadau cyhoeddus.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau, Mehefin 2003**